

Cyfarfod Cyntaf y Grŵp Twristiaeth Gyfrifol Cymru 4^{ydd} Tachwedd 2011

Daeth tri ar hugain o bobl at ei gilydd ar gyfer digwyddiad agoriadol Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Cymru. Partneriaeth anffurfiol yw'r grŵp o staff a chymdeithion allanol Sefydliad Cymreig ar gyfer Adnoddau Naturiol Prifysgol Bangor. Nod y grŵp yw cysylltu pawb sydd â diddordeb ym mhwsigrwydd cyfraniad twristiaeth i economi, diwylliant ac amgylchedd Cymru ac i ddatblygu ffyrdd o reoli twristiaeth mewn modd mwy cynaliadwy, yn enwedig sut y gallwn ddefnyddio twristiaeth i wneud Cymru'n le gwell i fyw.

Bydd Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Cymru yn cysylltu â phobl sy'n gweithio yn y sector twristiaeth yng Nghymru, a'r rhai sy'n gweithio mewn sectorau eraill, yn y llywodraeth a'r sefydliadau addysgol. Bydd hefyd yn cysylltu â phobl sydd ag arbenigedd a phrofiad o dramor all gael ei gymhwyso i'r sefyllfa yma yng Nghymru. Yn y cyfarfod cyntaf hwn cafwyd cyflwyniadau gan Dr Einir Young, Sefydliad Cymreig ar gyfer Adnoddau Naturiol, Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, Dr David Joyner, Arloesi Bangor. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Heidi Keyser o Ganolfan Twristiaeth Gyfrifol Rhyngwladol yn Ne Affrica a fu'n trafod ei phrofiad o geisio cael y diwydiant a'r llywodraeth i ysgwyddo'r baich o ddefnyddio twristiaeth fel arf yn ymgais De Affrica i ddatblygu'n gynaliadwy .

Arweiniodd Harold Goodwin, Athro ar ymweliad ym Mhrifysgol Bangor, drafodaeth ar y cwestiwn "Beth yw pwrpas twristiaeth yng Nghymru?" Mae Cymru wedi hen sefydlu'i hun fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth, â'r diwydiant yn cyfrannu £6.2 biliwn o'r Cynnyrch Crynswth Gwladol (GDP) sef 13.3% o'r economi. MAe twristiaeth wedi ei enwi fel sector blaenoriaeth ar gyfer yr economi Gymreig. Ym mis Medi 2011 cyhoeddodd Edwina Hart y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y gallai twristiaeth, yn ei thyb hi, gael ei ddefnyddio i gryfhau hunaniaeth wahanol Cymru a sicrhau fod Cymru'n le mwy deniadol i ymweld ag ef. Dadleuodd Dan Clayton Jones y dylai twristiaeth "ddwyn ffrwyth o safbwynt creu swyddi ac incwm". Adnabuwyd twristiaeth fel "gwasanaeth ecosystem ddiwylliannol" yn yr "Asesiad Ecosystem Genedlaethol" a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Symudodd y drafodaeth yn ei blaen at bynciau megis "Mewn byd cyfyngedig (h.y. lle nad oes cyflenwad di derfyn o adnoddau) beth all twristiaeth gynnig i bobl Cymru a'u hamgylchedd?" "Beth gall twristiaeth gynnig i les ac ansawdd bywyd pobl Cymru?"

Mae Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Cymru felly yn awyddus i daclo'r cwestiwn o beth all twristiaeth ei wneud dros Gymru yn hytrach na beth all Cymru gynnig i dwristiaeth. Cafwyd trafodaeth fywiog a hwyliog ar ystod eang o bynciau ac nid cofnod o'r drafodaeth honno mo'r ddogfen hon.

Yn y sector twristiaeth mae tipyn o siarad ar hyn o bryd am yr agenda caffael yn lleol, bod yn wahanol a'r 'teimlad o le'. Yr hyn sy'n ysgogi'r diddordeb yma yw'r ymwybyddiaeth fod angen gwella ansawdd y profiad gaiff ymwelwyr, a hynny am resymau cystadleuol, ac er mwyn cynyddu cyfraniad twristiaeth i fywoliaeth leol drwy gyflogi pobl yn uniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi.

Dychwelwyd dro ar ôl tro at dair thema greiddiol drwy'r trafodaethau: **iaith a diwylliant, bywoliaeth a gwydnwch**. Dadleuodd sawl un na ddylai twristiaeth ganolbwyntio'n unig ar y 'pethau braf', rhaid i dwristiaeth gyfrannu at ddatblygiad lleol a rhanbarthol yng Nghymru i'r graddau y bo hynny'n bosib. Rhaid iddo ddenu diddordeb a chreu rhywbeth o werth i'r gymuned leol yn ogystal â'r ymwelydd. Rhaid i dwristiaeth gyfrannu at gynnal a chadw diwylliant yng Nghymru; gellir ei ddefnyddio i gysylltu

ag ymwelwyr ac i gyfrannu tuag at ariannu a chysylltu gyda gweithgareddau cymdeithasol, amatur a phroffesiynol yng Nghymru. Mae o'r pwys mwyaf fod twristiaeth yn creu budd i gymunedau a'u treftadaeth naturiol neu nid yw'n ddim mwy nag ecsploetiaeth.

Gwnaed ymdrech i ganfod trywydd ar gyfer y dyfodol i Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Cymru os gellir adnabod ffynhonnell ariannol, fel a ganlyn:

- Cyfrannu at radd MBA mewn Rheoli Amgylcheddol Ysgol Fusnes Bangor (wedi'i gadarnhau)
- Cynnal symposium ar "Twristiaeth Geltaidd" ym Mangor gyda chyfraniad o Gernyw ac Iwerddon
- Sicrhau proffil uwch i'r iaith Gymraeg fel caffaeliad i dwristiaeth gan gyfuno'r teimlad o'r egsotig gyda'r hynafol - wedi'r cyfan Celtiaid oedd trigolion gwreiddiol Prydain, yn siarad Brythoneg, iaith sy'n perthyn i'r Gymraeg a'r Aeleg. (Mae yna enghreifftiau o arfer dda o du busnesau llwyddiannus iawn megis Portmeirion).
- Cwrs preswyl ym Mhlas Tanybwllch i drafod y cysylltiad rhwng twristiaeth a bywoliaeth.
- Twristiaeth Gyfrifol yn y parciau cenedlaethol ac ardaloedd dynodedig eraill.
- Gweithio drwy gysylltiadau sy'n bodoli eisoes yn yr Ariannin a Chile i ateb y cwestiwn "Sut beth fyddai Twristiaeth Gynaliadwy yn yr Antartig" (Cais eisoes wedi'i gyflwyno i'r Darwin Initiative)
- Symposiwm rhyngwladol lefel uchel ar dwristiaeth a bywoliaeth yn Beijing (gwaith ar y gweill eisoes i sicrhau cyllid).
- Ymchwil desg i gydlynu gwaith cyrff megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sefydliad Materion Cymreig, ac ymchwil perthnasol i'r Rhaglen cynhwysiad cymdeithasol Cymunedau'n Gyntaf.¹
- Mabwysiadu dull o ymchwil gweithredol gyda rhai o'r cymunedau lleiaf breintiedig Cymru (yn ôl Mynegai Tlodi Cyfansawdd Cymru) sydd yn aml i'w canfod mewn ardaloedd o werth naturiol uchel AHNE, SSI ag ati. Gallai Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol fod yn bartneriaid brwd (Efallai fod cyllid ESRC ar gael).
- Datblygu dealltwriaeth well, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, o fodelau strwythurol gwahanol ar gyfer mentrau lleol sy'n cynnwys masnachu'n deg a chadwyni cyflenwi lleol yn mewn perthynas â thwristiaeth.

Mae'r pwyntiau uchod i gyd yn ategu at yr agenda caffael lleol, dangos ein bod yn wahanol a'r teimlad o le ac yn rhoi llwyfan i arddangos arferion gorau yng Nghymru yn rhyngwladol.

Rydym yn croesawu'ch syniadau ar sut i ddatblygu'r Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Cymru ac yn gofyn am eich cymorth wrth i ni geisio cynnwys cymaint o bobl sydd â diddordeb ag yn bosib.

¹ www.wiserd.ac.uk/resources/baseline-audits/ ;
www.bangor.ac.uk/so/documents/MannPlowsNorthWalesLocalitiesChaper23.5.11.pdf

Harold Goodwin

12/11/2011